Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Cyllid Llywodraeth Cymru

## Cyllid Newydd i Hybu Adnoddau Naturiol a Llesiant yng Nghymru

Mae disgwyl i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ffrwd gyllido newydd sylweddol i hybu adnoddau naturiol a llesiant yng Nghymru. Bydd y cynllun yn cael ei weinyddu a'i reoli gan Is-adran yr Amgylchedd a Chymunedau ar ran diddordebau polisi ehangach gan ganolbwyntio ar gefnogi prosiectau cydweithredol traws-sector a fydd yn cynnig ystod eang o fuddion amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol. Gan helpu i weithredu Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol a'r Polisi Adnoddau Naturiol, gall ymgeiswyr wneud cais o dan 3 thema'r cynllun:

- Datblygu, adfywio ac ehangu mynediad i seilwaith gwyrdd cynaliadwy;
- Gwella ansawdd yr amgylchedd adeiledig trefol a gwledig; a
- Datblygu rhwydweithiau ac ardaloedd ecolegol cydnerth, a datrysiadau yn seiliedig ar natur.

Disgwylir i'r cynllun agor fis Medi 2018, gan wahodd prosiectau strategol a fydd ar waith yn lleol, yn rhanbarthol neu'n genedlaethol a chynnig cyllid am hyd at 3 blynedd. Anogir mudiadau o bob sector sydd â diddordeb i archwilio syniadau posib am brosiectau a chydweithrediadau drwy blatfform arlein. Bydd rhagor o wybodaeth am y cynllun, gan gynnwys canllawiau a ffurflenni cais, ar gael ar y wefan hon yn yr wythnosau nesaf.

Os hoffech gael gwahoddiad i ymuno â'r platfform arlein neu gael gwybod unwaith mae'r cynllun yn fyw cofrestrwch eich diddordeb drwy Environmentgrants@gov.wales.